

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd)
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)
	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod) eitem 1-12
	Aled Eirug	(Aelod o'r Awdurdod)
	Hugh Hesketh Evans	(Aelod o'r Awdurdod)
	Guto Harri	(Aelod o'r Awdurdod) eitem 5-16
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Siân Lewis	(Aelod o'r Awdurdod)
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones	(Prif Weithredwr)
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Bethan C. Williams	(Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Jane Felix Richards	(Pennaeth Hyrwyddo a Marchnata) – eitem 13
	Steve Thomas	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Gwybodaeth)
	Catrin Hughes Roberts	(Cyfarwyddwr Partneriaethau) – eitem 7-13

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. **Cofnodion cyfarfod 387, 387(a) a 388** (a gynhaliwyd ar 04.06.15 a 15.07.15)

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 387, 387(a) a 388. Cymeradwyodd yr Awdurdod y cofnodion.

Penderfynwyd y dylid nodi penderfyniadau'r Awdurdod yn glir yn y cofnodion ac awgrymwyd y dylid cynnwys tabl ar ddiwedd y cofnodion yn crynhoi'r penderfyniadau a phwyntiau gweithredu.

3. **Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 388**

Eitem 5.1.17 (Strategaeth Dysgwyr)– nodwyd nad oedd dyddiad wedi'i bennu ar gyfer cyflwyno asesiad o berfformiad y Strategaeth Dysgwyr. Nodwyd fod gwahoddiad i swyddogion o'r Llywodraeth fynychu'r cyfarfod fel partner ym mhrosiect Dal Ati, ac y byddai'r dyddiad yn cael ei gadarnhau gydag aelodau'r Pwyllgor Cynnwys maes o law.

Eitem 5.1.16 – holwyd am ffigyrau defnydd ap Dal Ati ac a oedd strategaeth ar gyfer cynyddu'r ffigyrau a denu dysgwyr iau i ddefnyddio'r gwasanaeth.

Esboniwyd bod gwaith ymchwil yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ac y byddai canfyddiadau'r gwaith yn cael eu cyflwyno fel rhan o asesiad y Pwyllgor Cynnwys o'r ddarpariaeth i ddysgwyr.

Eitem 5.1.22 - Nodwyd y byddai argymhelliad ar gyfer Prif Darged y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf yr Awdurdod.

4. **Adroddiad o'r Pwyllgor Craffu Adeoli a Chydleoli** a gynhaliwyd ar 09.09.15

Cyflwynodd JD ac IHJ adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 09.09.15 a chyfeiriwyd at nifer o'r argymhellion.

[**Crynodeb:** Esboniodd JD fod y Pwyllgor wedi derbyn diweddariad ar nifer o faterion yn ymwneud â'r trafodaethau gyda BBC Cymru, gan gynnwys amserlen ddiwygiedig y prosiect, newidiadau i'r ddarpariaeth TG a'r model busnes diweddaraf. Cymeradwyodd yr Awdurdod yr argymhellion a gyflwynwyd.]

5. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Prosiect Archifo

Nodwyd fod y gwaith o drafod opsiynau archifo gyda phartneriaid allanol yn parhau. Roedd trafodaethau hefyd ar y gweill gyda BBC Cymru fel rhan o'r prosiect Cydleoli.

Nodwyd fod y BBC yn parhau i ystyried opsiynau a safonau technegol amrywiol ar gyfer eu gofynion archifo ac felly ni fyddai modd llunio argymhellion penodol nes y bydd penderfyniadau wedi eu gwneud parthed safonau technegol canolfan ddarlledu newydd y BBC.

Roedd gwaith paratoi hefyd yn cael ei wneud o ran ystyried opsiynau a chostau ar gyfer y prosiect archifo gan gynnwys asesu costau tebygol y farchnad o'u cymharu gyda chostau cyflawni'r prosiect yn fewnol (gyda staff prosiect ychwanegol) neu mewn partneriaeth gyda chyrrff allanol.

Roedd ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i sut i sicrhau mynediad i'r deunydd unwaith y bydd wedi ei archifo.

Esboniodd fod [ymgyngorydd allanol] wedi ei gytundebu er mwyn ystyried polisi ar gyfer dethol a blaenoriaethu deunydd i'w archifo. Awgrymwyd y dylid ystyried archifo enghreifftiau o ddeunydd cyflwyno ('continuity') S4C yn ogystal â rhaglenni er mwyn cadw ar gof arddull cyflwyno'r sianel.

Cyfeiriwyd at ddatganiad diweddar gan Sky yn nodi eu bod yn bwriadu terfynu eu darllediadau SD erbyn 2020 a holwyd beth fyddai oblygiadau posibl hyn i S4C. Penderfynwyd y byddai swyddogion yn ystyried goblygiadau hyn ochr yn ochr â strategaeth llwyfannau S4C.

6. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Adolygiad Gwariant DCMS / y Llywodraeth

[Crynodeb: Cyfeiriwyd at yr ohebiaeth a'r cyfarfodydd a fu rhwng S4C a'r DCMS dros yr haf yn ymwneud a'r Adolygiad Gwariant a lle S4C o fewn yr adolygiad o Siartr y BBC. Roedd ymateb S4C yn pwysleisio'r sialens o adnabod arbedion effeithiolrwydd pellach.]

Nodwyd y byddai canlyniadau'r Adolygiad Gwariant yn cael eu cyhoeddi ar 25 Tachwedd, ond na fyddai penderfyniadau terfynol parthed Siartr y BBC a 'scale & scope' y BBC yn cael eu gwneud tan Hydref/Tachwedd 2016. Nodwyd y gallai hyn greu sefyllfa o ansicrwydd i S4C wrth orfod trafod yr elfennau incwm cyhoeddus ar wahân i'w gilydd.

7. Dyfodol Teledu Cymraeg 2

Cyflwynodd IHJ y ddogfen drafft Dyfodol Teledu Cymraeg 2 i'r Awdurdod. Esboniodd ei fod wedi bod yn ystyried cyflwyniad diweddar y BBC a Tony Hall *British, Bold, Creative*, a oedd yn gyfraniad positif, uchelgeisiol ac adeiladol i'r drafodaeth am ddyfodol y BBC.

Nododd ei fod yn awyddus i ail-edrych ar naratif a ffurf y ddogfen er mwyn llunio dogfen a fyddai'n nodi uchelgais a gweledigaeth S4C ar gyfer y cyfnod nesaf yn ogystal â chyflwyno cyd-destun ariannol S4C a chwestiwn 'ariannu digonol'.

Cafwyd trafodaeth am naratif a chynnwys y ddogfen a nodwyd fod yr Awdurdod yn dymuno cyflwyno gweledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth a fyddai'n rhoi cyfle i bobl drafod dyfodol gwasanaeth S4C.

[Crynodeb: Ymhlith yr elfennau a drafodwyd roedd partneriaethau, sut mae S4C yn ychwanegu gwerth, a chyfraniad y sianel at foderneiddio ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg.]

Cyfeiriwyd at adolygiad posibl o weithgareddau S4C a holwyd a ddylid gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol i gadarnhau bwriad i gynnal adolygiad o S4C ac i alw'n gyhoeddus am adolygiad. Nodwyd fod swyddogion DCMS wedi nodi y byddai adolygiad yn cael ei gynnal er mwyn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddod i benderfyniad parthed ariannu digonol ond y byddai unrhyw adolygiad yn gymesur â maint y sefydliad a'r gofyn ariannol.

Nodwyd fod Jeremy Hunt wedi cyfeirio at adolygiad o strategaeth ac ariannu S4C ar gyfer y cyfnod ariannu nesaf a bod y Cytundeb Fframwaith (cymal newydd 63A) rhwng y Llywodraeth a'r BBC yn cynnwys ymrwymiad i gynnal adolygiad.

Penderfynwyd y byddai'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn trafod cynnal adolygiad o strategaeth ac ariannu S4C yn y cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol.

Penderfynwyd y dylid addasu drafft Dyfodol Teledu Cymraeg 2 er mwyn cynnwys gweledigaeth S4C ar gyfer y 5 – 10 mlynedd nesaf.

Penderfynwyd llunio ymatebion penodol ar gyfer ymgynghoriadau'r pwyllgorau dethol gan ganolbwyntio ar ateb cwestiynau ffeithiol sy'n berthnasol i S4C.

8. **Adolygiad o'r Broses Gomisiynu a Chytundebau Sefydlogi**

Cyflwynodd EM a DRh eu hadolygiad o'r broses gomisiynu a'r drefn cytundebau sefydlogi.

Esboniwyd eu bod wedi cynnal trafodaethau'n fewnol yn S4C a gyda chwmnïau cynhyrchu er mwyn deall yn well sut y mae'r broses ddiweddar a'r Cytundebau Sefydlogi wedi gweithio.

Cymeradwydd yr Awdurdod yr argymhelliad i barhau gyda'r gwaith o ystyried effaith posibl newidiadau i'r drefn gomisiynu a chytundebau sefydlogi / cyfresi dychwelyd ac effaith posibl ar gyllidebau rhaglenni, costau'r awr a natur y gwasanaeth ac i adrodd yn ôl i'r Awdurdod ym mis Tachwedd.

9. **Cyfraniad Ariannol tuag at Hyfforddiant**

[Crynodeb: Nodwyd bod llythyr o gefnogaeth wedi ei baratoi ar gyfer Skillset, a oedd yn dal i ddisgwyl gwybodaeth bellach oddi wrth WEFO parthed eu cais am arian Ewropeaidd.]

10. **Swydd Cyfarwyddwr Partneriaethau (cyfnod mamolaeth)**

Nodwyd nad oedd penodiad wedi ei wneud ar gyfer cyfnod mamolaeth y Cyfarwyddwr Partneriaethau yn dilyn hysbysebu'r swydd am y tro cyntaf a bod IHJ yn ystyried opsiynau amgen gan gynnwys tendro am wasanaethau asiantaeth i ddarparu cymorth ac yn ogystal ail-hysbysebu'r swydd.

11. **Swydd y Cyfarwyddwr Marchnata ac Ymwneud**

Nodwyd bod y broses recriwtio yn parhau gyda chyfweliadau pellach i'w cynnal wythnos nesaf. Bydd IHJ yn rhoi diweddariad i'r Awdurdod yn dilyn cwblhau'r broses.

12. **Dewisiadau'r Dyfodol/Diwrnod i Ffwrdd**

Cyflwynodd IHJ Atodiad 3 ei adroddiad a oedd yn cynnwys nifer o gwestiynau yr oedd wedi eu llunio er mwyn sbarduno proses ymysg swyddogion a'r Awdurdod er mwyn llywio trafodaeth am ddyfodol S4C a nifer o'r dewisiadau strategol y bydd angen eu hystyried yn ystod y misoedd nesaf.

Penderfynwyd y dylid cynnal Diwrnod i Ffwrdd yr Awdurdod ym mis Tachwedd yn hytrach na mis Ionawr gan ddefnyddio'r cyfarfod er mwyn ystyried ymhellach nifer o'r cwestiynau a gyflwynwyd a materion eraill yn ymwneud â strategaeth ac ariannu S4C.

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am nifer o'r cwestiynau a nodwyd y materion canlynol i'w hystyried ymhellach yn y Diwrnod i Ffwrdd:

- Bwriad yr Ysgrifennydd Gwladol wrth sôn am 'read-across' rhwng ariannu'r BBC ac S4C.
- Y berthynas rhwng cyfathrebu a chynnwys.

- Her y nifer cynyddol o lwyfannau.
- Cylch Gorchwyl S4C.
- Perthynas S4C â'r sector gynhyrchu.
- Carfannau gwahanol y gynulleidfa ar sail oedran, lleoliad ac iaith.
- Asesu llwyddiant y gwasanaeth a llunio'r prif darged.
- Gwasanaethau mynediad.]

Cymeradwywyd yr argymhelliad i barhau i weithredu a datblygu'r Strategaeth Cynnwys bresennol nes y bydd eglurder ar sefyllfa ariannol S4C ac yn y cyfamser i barhau gyda'r gwaith o ystyried opsiynau ar gyfer gwasanaeth S4C yn y dyfodol o dan scenarios ariannol amrywiol gan gynnwys cymryd i ystyriaeth ofynion y gynulleidfa, prif dargedau posibl a pherfformiad y gwasanaeth a'r bartneriaeth gyda'r sector gynhyrchu.

Nodwyd hefyd y bwriad i ystyried cwestiynau sylfaenol am natur gwasanaeth S4C ymhen 5-10 mlynedd yn y Diwrnod i Ffwrdd ym mis Tachwedd.

13. **Cyflwyniad Cyfathrebu, Marchnata a Phartneriaethau Chwarter 1**

Cyflwynodd ST yr Adroddiad Cyfathrebu, Marchnata a Phartneriaethau ar gyfer Chwarter 1.

[Crynodeb: Amlinellodd flaenoriaethau hyrwyddo'r cyfnod a chyfeiriodd at y gweithgareddau a drefnwyd yn Eisteddfod yr Urdd ac yn Fferm Ffoli. Cafwyd cyfle i gasglu gwybodaeth am y gynulleidfa gan gynnwys cyfeiriadau e-byst ar gyfer cylchlythyr arfaethedig Cyw. Roedd y gwaith cyfathrebu corfforaethol wedi cynnwys gwneud cysylltiadau gyda'r aelodau seneddol newydd a pharatoi at etholiadau'r Cynulliad yn 2016. Roedd y gwaith o ddatblygu a ffurfioli cynllun partneriaethau S4C hefyd yn parhau. Cyfeiriwyd at yr Academi Sgiliau a gydlynir gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant gyda'r bwriad o symleiddio'r ddarpariaeth bresennol.]

MATERION ERAILL:

14. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth.**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

15. **Rhaglen Waith**

Cyflwynwyd diweddariad o'r Rhaglen Waith ar gyfer gwaith yr Awdurdod tan fis Gorffennaf 2016, er gwybodaeth.

16. **Unrhyw Fater Arall** - Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Dydd Iau 8 Hydref, 2015 yng Nghaerdydd